Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

# Pa bryd y cynhelir yr arolygiad nesaf o'r ysgol neu'r uned cyfeirio disgyblion (UCD)?

# Arweiniad ar arolygu ysgolion neu UCDau newydd, ysgolion sy'n cydweithio ac ysgolion ffederal, ac ar ganslo, oedi ac aildrefnu arolygiadau ysgol neu UCD

Diweddarwyd 2025

**Rheoli fersiwn**

| **Fersiwn y ddogfen** | **Awdur** | **Dyddiad cyhoeddi** | **Newidiadau a wnaed** |
|---|---|---|---|
| 1.0 | Cyfarwyddwr Cynorthwyol: Cynradd | Hydref 2011 | Cyfuno dwy ddogfen |
| 2.0 | Rheolwr Cyhoeddiadau | Mawrth 2012 | Ychwanegu adran ar weithgarwch dilynol |
| 3.0 | Rheolwr Cyhoeddiadau | Ebrill 2013 | Diweddariadau i wybodaeth fonitro Estyn |
| 4.0 | Rheolwr Cyhoeddiadau | Tachwedd 2014 | Diweddariadau |
| 5.0 | Arweinydd Sector | Chwefror 2015 | Diwygio 'bob chwe blynedd' i 'o fewn cyfnod chwe blynedd' |
| 6.0 | Arweinydd Sector | Mawrth 2017 | Diweddariadau'r trefniadau arolygu newydd, a newid iddynt o fewn cyfnod saith mlynedd 2016-2023 |
| 7.0 | Arweinydd Sector | Medi 2020 | Newid y cyfnod ar gyfer ysgolion newydd a gynhelir i 5 mlynedd, a newid eithiradol i gyfnod wyth mlynedd ar gyfer 2016-2024. Cyfrif am gau ysgolion oherwydd COVID. |
| 8.0 | Grŵp polisi arolygu | Chwefror 2025 | Diwygio'r testun er mwyn ystyried dechrau cyfnod arolygu newydd a chyflwyno Ymweliadau Interim. |

Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â’r ddogfen hon at:

Cyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at ymholiadau@estyn.llyw.cymru

Mae’r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Asesiad Effaith Cydraddoldeb**

Cynhaliwyd asesiad rhesymwaith busnes ac mae’r polisi hwn yn cyfrannu at amcanion strategol ac egwyddorion cyflenwi Estyn.

Yn unol ag Asesiad Effaith Cydraddoldeb Estyn, cynhaliwyd asesiad effaith sgrinio cychwynnol ac nid ystyrir bod y polisi hwn yn effeithio’n niweidiol ar sail y naw nodwedd warchodedig a bennwyd gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

| Cynnwys | Tudalen |
|---|---|

**Cyflwyniad** ..... **1**

**Deddfwriaeth** ..... **1**

**Hysbysu Estyn am gau ysgolion a sefydlu ysgolion newydd neu ffederasiynau** ..... **1**

**Trefniadau ar gyfer arolygu ysgolion a sefydlwyd yn ddiweddar, ysgolion sy'n cydweithio, ac ysgolion ffederal** ..... **2**

Ysgolion newydd ..... 2

Ysgolion sy'n cydweithio ..... 3

Ysgolion ffederal ..... 4

**Canslo ac oedi arolygiadau ysgol** ..... **5**

Canslo ..... 5

Oedi ..... 6

Rolau arolygwyr ychwanegol dan gontract (AYG) ..... 7

**Trefniadau gweithgarwch dilynol ar gyfer cau ysgolion** ..... **7**

Ysgolion y mae angen iddynt gael ymweliadau monitro dilynol gan Estyn ..... 7

Ysgolion yn y categori mesurau arbennig neu welliant sylweddol yn cau ..... 8

Ysgolion yn yr hen gategori adolygu gan Estyn yn cau ..... 8

**Cyfeiriadau** ..... **9**

## Cyflwyniad

1 Mae'r ddogfen hon yn amlinellu trefniadau Estyn ar gyfer arolygu ysgolion mewn sefyllfaoedd sy'n ymddangos nad ydynt yn gwbl syml, fel pan gaiff ysgolion newydd eu sefydlu, pan fydd ysgolion yn cydweithio, neu pan fydd ysgolion yn gweithio mewn ffederasiynau. Yn ogystal, mae'n amlinellu'r dull sydd gan Estyn ar gyfer canslo, oedi ac aildrefnu ysgolion sy'n cael eu harolygu o dan adran 28 Deddf Addysg 2005.

2 Er y defnyddir y term 'ysgol' drwy'r ddogfen, mae'r arweiniad yn llawn mor gymwys i unedau cyfeirio disgyblion (UCDau).

## Deddfwriaeth

3 Mae'r cyfnod arolygu wedi'i bennu yn y ddeddfwriaeth a restrir[1]. Er i'r cyfnod arolygu gael ei ymestyn gan ddeddfwriaeth 2016 a 2020, mae'r cylch arolygu bellach wedi dychwelyd i bob chwe blynedd a chaiff pob ysgol y mae adran 28 Deddf 2005 yn berthnasol iddi ei harolygu o leiaf unwaith mewn cyfnod o chwe blynedd. Mae'r Rheoliadau hyn yn berthnasol i bob lleoliad meithrin, ysgol a gynhelir, Uned Cyfeirio Disgyblion ("UCD"), gwasanaeth gyrfaol a gwasanaethau cysylltiedig, a lleoliadau addysg bellach.

4 Mae Mesur Addysg (Cymru) 2011 ('y Mesur') wedi rhoi pwerau a dyletswyddau ar waith i wneud cydweithio rhwng sefydliadau yn haws, i wella llywodraethu ysgolion a symleiddio cynllunio lleoedd ysgol. Mae'r Mesur hefyd yn cynnwys cynigion i roi pŵer i awdurdodau lleol sefydlu ffederasiynau o ysgolion. Mae'r Mesur yn debygol o gynyddu nifer a chymhlethdod y trefniadau cydweithio a ffedereiddio rhwng ysgolion.

## Hysbysu Estyn am gau ysgolion a sefydlu ysgolion newydd neu ffederasiynau

5 Mae Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, Adran 29 yn gofyn i Lywodraeth Cymru hysbysu Estyn ynghylch cynigion i derfynu neu sefydlu ysgolion newydd yng Nghymru. Yn ychwanegol, dylai awdurdodau lleol hysbysu Estyn yn rheolaidd am y canlynol, cyn gynted ag y bo'n ymarferol:

- Unrhyw gynigion i ysgolion weithio mewn ffederasiwn
- Y dyddiad y daw'r cynigion i rym
- Enwau ysgolion newydd a'u rhifau cyfeirnod

[1] Rheoliadau Addysg (Diwygiadau ynglŷn â'r Ysbeidiau rhwng Arolygiadau Addysg a Hyfforddiant) (Cymru) 2016, Rheoliadau Addysg (Diwygiadau ynglŷn â'r Ysbeidiau rhwng Arolygiadau Addysg a Hyfforddiant Cymru 2020

- Manylion am y math o ffederasiwn, gan gynnwys p'un a yw trefniadau yn cynnwys gweithio ar draws cyfnodau, ffederasiwn, neu weithio gydag ysgolion mewn awdurdodau lleol eraill
- Y math o fodel arweinyddiaeth ym mhob ffederasiwn
- Unrhyw newidiadau mewn ffederasiwn, er enghraifft os yw ysgol newydd yn ymuno neu'n gadael

## Trefniadau ar gyfer arolygu ysgolion a sefydlwyd yn ddiweddar, ysgolion sy'n cydweithio, ac ysgolion ffederal

6 Mae Estyn yn arolygu ysgolion yn unol â'r ddeddfwriaeth gyfredol. Bydd Estyn yn ystyried ac yn penderfynu pa drefniadau sy'n briodol ar gyfer arolygu ysgolion a sefydlwyd yn ddiweddar, ysgolion sy'n cydweithio, ac ysgolion ffederal, pan fydd wedi cael ei hysbysu am ysgolion newydd gan Lywodraeth Cymru neu wybodaeth gan awdurdodau lleol neu ysgolion ynglŷn ag ysgolion yn cydweithio neu drwy ffedereiddio. Oni bai bod Estyn yn derbyn gwybodaeth cyn bod yr ysgol yn cael ei hysbysu am arolygiad sydd ar fin ei gynnal, byddwn yn arolygu pob ysgol yn ôl yr arfer (h.y. o fewn y cyfnod arolygu arferol sy'n berthnasol bryd hynny).

7 Gallai ysgolion sydd newydd eu sefydlu gael arolygiad craidd neu ymweliad interim yn gyntaf, ar ôl eu sefydlu. Mae ymweliadau interim yn wahanol i arolygiadau craidd, gan nad ydynt wedi'u bwriadu i ddod i gasgliadau cyffredinol ynghylch effeithiolrwydd ysgol ond, yn hytrach, i helpu arweinwyr i adolygu cynnydd ers sefydlu'r ysgol neu ers yr arolygiad craidd diwethaf. Mae ymweliadau interim yn cynnig cyswllt rheolaidd ag arolygwyr, gan ganiatáu trafodaethau a myfyrdodau proffesiynol a all helpu i lywio gwelliannau yn y dyfodol.

8 Mae'r enghreifftiau isod yn disgrifio sefyllfaoedd cyffredin ac yn esbonio'r modd y bydd PAEF fel arfer yn dehongli ei bwerau arolygu yn yr amgylchiadau hynny. Bydd Estyn yn ystyried sefyllfaoedd mwy cymhleth a all godi fesul achos.

### Ysgolion newydd

9 Bydd ysgol a sefydlwyd yn ddiweddar yn cael rhif cyfeirnod newydd Llywodraeth Cymru.

10 Mae'r sefyllfaoedd canlynol yn dangos sut byddai PAEF fel arfer yn trefnu i ysgolion a sefydlwyd yn ddiweddar gael eu harolygu am y tro cyntaf, yn dibynnu ar y cyd-destun. Y bwriad yw arolygu'r ysgol newydd cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

11 Yn aml, caiff ysgol newydd ei sefydlu:

- yn sgil ad-drefnu sawl ysgol lai sy'n bodoli eisoes yn un ysgol fawr;

- o ganlyniad i uno ysgol iau â'r ysgol fabanod sy'n ei bwydo; neu
- i fodloni angen newydd, lle nad oedd ysgol yn bodoli yn flaenorol

12 Pan gaiff ysgol newydd ei sefydlu yn sgil ad-drefnu sawl ysgol fach sy'n cau ac yn ailagor fel ysgol newydd, neu yn sgil ysgol iau a'r ysgol fabanod sy'n ei bwydo yn cau ac wedyn yn ailagor fel un ysgol gynradd pob oedran 'wedi'i huno', bydd Estyn fel arfer yn arolygu'r ysgol a sefydlwyd yn ddiweddar o fewn 5 mlynedd, ond nid yn gynharach na 12 mis ar ôl ei hagor, (caiff hyn ei adolygu ar ddiwedd y cylch presennol o arolygiadau, sef 2024). Bydd Estyn yn defnyddio tystiolaeth berthnasol o'r ysgolion ar wahân a oedd yn bodoli cyn yr ad-drefnu lle bo'n briodol, gan roi ystyriaeth ddyledus i'r amser a allai fod wedi mynd heibio ers yr uno pan gaiff yr ysgol ei harolygu.

13 Gallai ysgol newydd gael ymweliad interim cyn cael arolygiad craidd. Gallai hyn ddibynnu ar amseriad sefydlu'r ysgol newydd yn ystod y cylch arolygu.

14 Pan gaiff ysgol newydd ei sefydlu i fodloni angen newydd (nid o ganlyniad i uno neu ad-drefnu ysgolion sy'n bodoli eisoes), er enghraifft ysgol cyfrwng Cymraeg newydd i fodloni gofynion ardal, byddwn fel arfer yn arolygu'r ysgol pan fydd tystiolaeth berthnasol ddigonol ar gael. Yn gyffredinol, mae'r ysgolion hyn yn agor gyda gydag un neu ddwy garfan ar y gofrestr, ac yn adeiladu nifer y disgyblion a charfanau dros amser. Felly, byddwn yn arolygu'r ysgol sydd newydd ei sefydlu o fewn chwe blynedd fel arfer, ond nid yn gynharach na thair blynedd ar ôl iddi agor.

15 Pan gaiff ysgol annibynnol newydd ei sefydlu, bydd arolygwyr fel arfer yn cynnal ymweliad cofrestru â'r ysgol yn ystod y ddau dymor cyntaf i gadarnhau p'un a yw'r ysgol yn bodloni'r Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru). Byddai Estyn yn cynnal arolygiad llawn fel arfer o fewn 4 blynedd o agor yr ysgol.

## Ysgolion sy'n cydweithio

16 Mae'r trefniadau i gyrff llywodraethol ysgolion gydweithio'n agosach wedi'u hamlinellu yn Rheoliadau Cydweithio rhwng Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2008; a Rheoliadau Trefniadau Cydlafurio (Ysgolion a Gynhelir a Chyrff Addysg Bellach) (Cymru) 2008. Daeth y rheoliadau i rym ym Mawrth 2008. Mae'r rheoliadau yn galluogi cyrff llywodraethol ysgolion i ddatblygu trefniadau cydweithio, ac os byddant yn dymuno, dirprwyo arfer eu swyddogaethau i un cydbwyllgor neu fwy. Mae pob ysgol yn cadw ei rhif cyfeirnod ysgol Llywodraeth Cymru.

17 Caiff y trefniadau hyn eu hadnabod weithiau fel 'cydweithio ymhlith cyrff llywodraethol' neu 'ffederasiynau meddal'.

18 Ar gyfer ysgolion sy'n gweithio o dan y trefniadau hyn, byddwn yn arolygu pob ysgol ar wahân o fewn y cyfnod a bennwyd ym mhwynt 3 uchod, ac yn llunio adroddiad ar wahân ar bob ysgol. Gellir adrodd am effeithiolrwydd y cydweithio o fewn maes arolygu 3 o'r

adroddiad arolygu, lle bo'n briodol. Byddwn yn defnyddio dull tebyg ar gyfer unrhyw UCDau sy'n rhan o drefniadau cydweithio, er nad yw UCDau yn dod o dan y rheoliadau ym mharagraff 14.

19 Yn yr un modd, ar gyfer ysgolion sydd â'r un pennaeth (gyda chydweithio â'r corff llywodraethol neu hebddo), byddwn yn arolygu pob ysgol ar wahân ac yn llunio adroddiad ar wahân ar bob ysgol.

## Ysgolion ffederal

20 Mae'r trefniadau i gyrff llywodraethol greu ffederasiynau wedi'u hamlinellu yn Rheoliadau Ffedereiddio Ysgolion a Gynhelir a Diwygiadau Amrywiol (Cymru) 2010.

21 Mae gan ysgolion ffederal un corff llywodraethol. Gall pob ffederasiwn gynnwys rhwng dwy a phump o ysgolion. Gall ysgolion ffederal gynnwys ysgolion o fathau gwahanol, fel ysgolion cynradd neu uwchradd a gynhelir, ysgolion a reolir yn wirfoddol neu ysgolion arbennig a gynhelir. Gallai'r ysgolion fod mewn awdurdodau lleol gwahanol.

22 Caiff y trefniadau hyn eu hadnabod weithiau fel 'ffederasiynau corff llywodraethol' neu 'ffederasiynau cadarn'.

23 Er eu bod wedi'u ffedereiddio'n gyfreithlon, mae'r ysgolion hyn yn parhau i fod yn endidau cyfreithiol ar wahân, a phob un yn cadw ei rhif cyfeirnod ysgol Llywodraeth Cymru ei hun. Ar gyfer ysgolion ffederal, bydd Estyn yn arolygu pob ysgol ar wahân ac yn llunio adroddiad ar wahân ar bob ysgol. Bydd y barnau a'r argymhellion ym mhob adroddiad arolygu yn adlewyrchu safonau, darpariaeth ac effeithiolrwydd yr arweinyddiaeth ym mhob ysgol benodol, ond gall yr adroddiadau gynnwys rhywfaint o farnau a chanfyddiadau ar y cyd, er enghraifft o ran effeithiolrwydd yr arweinyddiaeth ar draws y ffederasiwn cyfan.

24 Ni all Estyn symud amseriad arolygiad mewn ffordd sy'n golygu nad yw'n bodloni gofynion cyfreithiol, h.y. bod yn rhaid i ysgolion gael eu harolygu o leiaf unwaith mewn cyfnod o wyth mlynedd rhwng Medi 2016 a 31 Awst 2024 ac o leiaf unwaith o fewn pob cyfnod dilynol o chwe blynedd, ond byddai'n ystyried ceisiadau i arolygu ysgol yn gynnar. Fel arfer, cyn belled ag y bo modd, byddwn yn arolygu ysgolion sy'n creu'r ffederasiwn ar yr un pryd neu dros gyfnod amser byr, fel o fewn yr un tymor, yn enwedig pan fydd gan yr ysgolion ffederal yr un pennaeth.

25 Pan fydd ysgol ychwanegol yn ymuno â ffederasiwn presennol, bydd Estyn yn ystyried pryd y cafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf cyn penderfynu pa bryd i'w harolygu eto. Os ydym eisoes wedi arolygu'r ffederasiwn o leiaf unwaith yn ystod y cyfnod rhagnodedig, ond nad yw'r ysgol unigol wedi cael ei harolygu, bydd Estyn yn gwneud darpariaethau i arolygu'r ysgol unigol yn unol â'r ddeddfwriaeth. Gallai hyn olygu ein bod yn arolygu'r ysgol ar wahân i weddill yr ysgolion yn y ffederasiwn.

## Canslo ac oedi arolygiadau ysgol

26 Mae nifer gyfyngedig o sefyllfaoedd lle gallai Estyn benderfynu canslo arolygiad arfaethedig. Mae'r adran hon yn amlinellu ymagwedd Estyn at ganslo ac oedi ysgolion a arolygir o dan adran 28 Deddf Addysg 2005.

27 Yn unol â Rheoliadau Addysg (Arolygu Ysgolion) (Cymru) 2006, mae'n rhaid i arolygiad adran 28 gael ei gwblhau o fewn y cyfnod o bythefnos i ddyddiad dechrau'r arolygiad. Felly, nid yw penderfyniadau i symud dyddiad dechrau neu ddyddiad gorffen arolygiad o fewn pum niwrnod gwaith yn gyfystyr â chanslo neu oedi arolygiad ysgol.

28 Mae'r amgylchiadau canlynol yn enghreifftiau lle y gallai Estyn benderfynu symud dyddiad dechrau neu ddyddiad gorffen arolygiad o fewn pum niwrnod gwaith: mae'r ysgol ar gau i'r holl ddisgyblion, neu ni fydd o leiaf tri chwarter y disgyblion yn yr ysgol, er enghraifft oherwydd amodau tywydd difrifol, taith ysgol neu ŵyl grefyddol, neu oherwydd gweithredu diwydiannol. Gallai'r amgylchiadau hyn gynnwys cau'r ysgol yn rhannol neu reoliadau'n ymwneud â chyfyngiadau ar symud oherwydd pandemig, a fyddai'n peri nad yw'n ddoeth i arolygwyr ymweld â'r ysgol.

29 Mae Estyn yn defnyddio'r diffiniadau canlynol:

- **Canslo:** os disgwylir i ysgol gau a bod Estyn yn cytuno na ddylai'r arolygiad fynd yn ei flaen. Mae'n bosibl y gallai/na allai'r ysgol fod wedi cael gwybod am yr arolygiad.
- **Oedi:** lle, yn dilyn hysbysu'r ysgol am ddyddiad yr arolygiad, y bydd Estyn yn cytuno i symud dyddiad dechrau'r arolygiad gan fwy na phum niwrnod gwaith.

30 Bydd y Cyfarwyddwr Cynorthwyol perthnasol yn gwneud argymhelliad i'r Cyfarwyddwr Strategol perthnasol a PAEF o ran penderfyniadau y dylai arolygiad gael ei ganslo neu ei oedi.

31 Mae rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i Estyn arolygu ysgolion o leiaf unwaith mewn cyfnod o wyth mlynedd rhwng Medi 2016 a 31 Awst 2024 ac o leiaf unwaith o fewn pob cyfnod dilynol o chwe blynedd, ac os yw disgyblion yn derbyn eu haddysg mewn unrhyw ysgol ar adeg lle y disgwylir cynnal arolygiad, yna mae'n bolisi gennym barhau'n unol â'r cynllun, oni bai bod unrhyw rai o bwyntiau 30-36 yn gymwys.

### Canslo

32 Disgwylir i'r ysgol gau ac, yn unol ag adran 5 Deddf Addysg 2005, mae PAEF wedi penderfynu, wedi ystyried y dyddiad y caiff yr ysgol ei chau, na fyddai unrhyw ddiben i arolygu'r ysgol.

33 Bydd PAEF fel arfer yn penderfynu canslo arolygiad lle rydym wedi cael hysbysiad swyddogol am gau ysgol yn barhaol gan Lywodraeth Cymru (LlC). Sylwer y gallai fod angen i PAEF ganslo arolygiad ar achlysuron lle bo ysgol yn cau'n answyddogol, er enghraifft oherwydd niferoedd isel ar y gofrestr.

34 Bydd PAEF ond yn canslo arolygiad fel arfer, os yw'r arolygiad yn ystod yr un tymor neu'r tymor yn union cyn y disgwylir cau'r ysgol yn barhaol. Er enghraifft, os disgwylir i ysgol gau ar ddiwedd tymor yr haf ym mis Gorffennaf neu ar ddiwedd cyfnod gwyliau'r haf ar ddiwedd mis Awst, yna caiff unrhyw arolygiad y disgwylir ei gynnal ar gyfer tymor yr haf ei hun ei ganslo. Os disgwylir cau ysgol ar gyfer tymor yr haf ac y caiff yr arolygiad ei drefnu ar gyfer tymor y gwanwyn blaenorol yna caiff yr arolygiad ei ganslo. Fodd bynnag, os caiff yr arolygiad ei gynnal yn nhymor yr hydref gyda'r ysgol yn cau yn nhymor yr haf, yna bydd yr arolygiad yn parhau yn unol â'r cynllun.

## Oedi

35 Bydd Estyn yn ystyried oedi arolygiadau fesul achos. Mae'r set ganlynol o enghreifftiau yn rhoi arweiniad ynglŷn â lle gallai Estyn oedi arolygiad fel arfer:

- Cafwyd digwyddiad difrifol yn yr ysgol yn ddiweddar, fel damwain angheuol i ddisgybl neu aelod o staff.
- Mae PAEF yn cytuno bod yr arolygiad yn debygol o amharu'n sylweddol ar y ddarpariaeth addysg neu beri pryder i lawer o ddisgyblion yn yr ysgol.
- Mae'r pennaeth neu'r awdurdod priodol neu aelod o uwch dîm rheoli'r ysgol yn destun ymchwiliad gan yr heddlu fyddai'n cael ei beryglu gan arolygiad o'r ysgol.
- Mae amgylchiadau eithriadol eraill, ym marn Estyn, sydd fel arfer yn cyfiawnhau oedi'r arolygiad. Gallai enghreifftiau gynnwys oedi arolygiad pan fo'r holl gynigion gan Arolygwyr Cofrestredig dan gontract wedi'u disbyddu mewn tymor arolygu penodol ac na all AEF arwain yr arolygiad, neu oedi arolygiad lle bo'r Arolygydd Cofnodol yn sâl ar fyr rybudd.

36 Ni dderbynnir ceisiadau i oedi arolygiad arfaethedig ar y sail bod y pennaeth allan o'r ysgol gan fod disgyblion yn yr ysgol yn derbyn addysg o hyd.

37 Ni ddylai gwaith adeiladu fod yn rheswm dros oedi fel arfer os oes disgyblion yn yr ysgol.

### Rolau arolygwyr ychwanegol dan gontract (AYG)

38 Bydd AYGau yn cadw'r contract ar gyfer arolygiadau a gânt eu hoedi neu eu haildrefnu, a chânt wybod am y dyddiad arolygu newydd gan gydlynydd arolygu. Lle na all yr AYG barhau â chontract, caiff ei gynnig i'r AYG nesaf a ddyfarnwyd yn llwyddiannus hyd nes bod yr holl gynigion tymhorol ar gyfer y rhanbarth hwnnw wedi'u disbyddu. Os bydd angen, rhoddir gwahoddiad pellach i roi dyfynbris. Pan fydd Estyn yn penderfynu bod arolygiad yn cael ei ganslo, daw'r contract(au) arolygu perthnasol i ben. Gallai hyn fod yn berthnasol yn achos rolau AYG ac Arolygwyr Lleyg ar gyfer arolygiadau a arweinir gan AEF ac Arolygydd Cofrestredig (ACof).

39 Caiff manylion am ddod â chontractau i ben eu hesbonio'n llawn yn nhelerau ac amodau perthnasol contractau ac maent ar gael yn yr ardal polisïau Arolygwyr ar wefan Estyn.

## Trefniadau gweithgarwch dilynol ar gyfer cau ysgolion

40 Mae'r adran hon yn ymdrin ag unrhyw addasiadau angenrheidiol i drefniadau arolygu dilynol pan ddisgwylir y bydd ysgol yn cau neu'n cael ei huno ag ysgol arall; hynny yw, pan roddwyd yr ysgol berthnasol mewn unrhyw gategori gweithgarwch dilynol yn dilyn ei harolygiad adran 28 blaenorol.

### Ysgolion y mae angen iddynt gael ymweliadau monitro dilynol gan Estyn

41 Os oes disgwyl y bydd ysgol y mae angen iddi gael ymweliadau gan Estyn yn cau, bydd Estyn yn dilyn y gweithdrefnau arferol, a bydd yr ymweliadau monitro yn mynd yn eu blaen yn unol â'r bwriad, hyd nes y bydd yr ysgol yn cau. Pan fydd disgwyl i ymweliad gael ei gynnal ychydig wythnosau cyn i ysgol gau, efallai y byddwn yn addasu ffocws yr ymweliad.

42 Os bydd ysgol y mae angen iddi gael ymweliadau gan Estyn, yn enwedig ymweliadau mesurau arbennig, ar fin cau ac mae nifer y disgyblion sy'n mynychu'r ysgol yn gostwng, bydd yr adnoddau a ddyrennir ar gyfer ymweliadau yn ystod y ddau dymor olaf y bydd yr ysgol yn agored, yn gymesur ac yn rhoi ystyriaeth i nifer y disgyblion sy'n weddill.

43 Pan fydd ysgol y mae angen gweithgarwch dilynol ynddi wedi cau, ni fydd unrhyw weithgarwch nac ymweliadau monitro pellach gan Estyn. Yn lle hynny, bydd arolygiad adran 28 newydd yn cael ei gynnal yn unol â'r arweiniad ym mharagraffau 47 a 48 isod. Lle bo'n briodol, mae gan PAEF hawl hefyd o dan Ddeddf Addysg 2005 i drefnu arolygu unrhyw sefydliad addysgol yng Nghymru unrhyw bryd, yn ychwanegol at amserlen arolygiadau arferol Estyn.

## Ysgolion yn y categori mesurau arbennig neu welliant sylweddol yn cau

44 Os yw ysgol yn y categori mesurau arbennig neu welliant sylweddol wedi cau yn sgil cynlluniau i ad-drefnu neu uno un ysgol neu fwy, gan arwain at agor ysgol newydd (yn cynnwys uno ysgol iau a'r ysgol fabanod sy'n ei bwydo), bydd Estyn fel arfer yn cynnal arolygiad adran 28 newydd o'r ysgol sydd newydd ei sefydlu o fewn tair blynedd, ond nid yn gynharach na 12 mis ar ôl iddi agor fel arfer. Yn amodol ar amseriad cau'r ysgol ac agor ysgol newydd yn ystod y cylch arolygu, efallai y byddwn yn cynnal ymweliad interim ac arolygiad craidd neu arolygiad craidd yn unig.

45 Mae gan PAEF yr hawl o dan Ddeddf Addysg 2005 i drefnu arolygu unrhyw sefydliad addysgol yng Nghymru unrhyw bryd, yn ychwanegol at amserlen arolygiadau arferol Estyn. Mewn amgylchiadau eithriadol, gall Estyn gynnal ymweliad interim neu arolygiad craidd ar gyfer ysgol sydd newydd ei sefydlu yn ystod y 12 mis cyntaf ar ôl iddi agor.

46 Bydd Estyn yn defnyddio tystiolaeth berthnasol o'r ysgolion ar wahân oedd yn bodoli cyn yr ad-drefnu lle bo'n briodol, gan ystyried yr amser y gallai fod wedi mynd heibio ers yr uno pan gaiff yr ysgol ei harolygu, yn unol â pharagraff 11 uchod.

## Ysgolion yn yr hen gategori adolygu gan Estyn yn cau

47 Os bydd ysgol yn y categori adolygu gan Estyn wedi cau yn sgil cynlluniau i ad-drefnu -neu uno un ysgol neu fwy, gan arwain at agor ysgol newydd, bydd Estyn fel arfer yn cynnal arolygiad adran 28 newydd o'r ysgol sydd newydd ei sefydlu o fewn chwe blynedd, ond nid yn gynharach na 12 mis ar ôl iddi agor, yn unol â pharagraff 11 uchod.

## Cyfeiriadau


Deddf Addysg 2005
http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2005/18/pdfs/ukpga_20050018_en.pdf

Rheoliadau Addysg (Diwygiadau ynglŷn â'r Ysbeidiau rhwng Arolygiadau Addysg a Hyfforddiant) (Cymru) 2016
http://www.legislation.gov.uk/wsi/2016/135/introduction/made/welsh

Rheoliadau Addysg (Diwygiadau ynglŷn â'r Ysbeidiau rhwng Arolygiadau Addysg a Hyfforddiant) (Cymru) 2020 https://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2020/37/made/welsh

Memorandwm Esboniadol i Reoliadau Addysg (Diwygiadau Ynglŷn â'r Ysbeidiau rhwng Arolygiadau Addysg a Hyfforddiant) (Cymru) 2020
https://senedd.wales/laid%20documents/sub-ld12970-em/sub-ld12970-em-w.pdf

Mesur Addysg (Cymru) 2011 http://www.legislation.gov.uk/mwa/2011/7/contents/welsh

Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998
http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1998/31/contents/welsh

Rheoliadau Cydweithio rhwng Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2008
http://www.legislation.gov.uk/wsi/2008/168/contents/made/welsh

Rheoliadau Trefniadau Cydlafurio (Ysgolion a Gynhelir a Chyrff Addysg Bellach) (Cymru) 2008 http://www.legislation.gov.uk/wsi/2008/3082/contents/made/welsh

Rheoliadau Ffedereiddio Ysgolion a Gynhelir a Diwygiadau Amrywiol (Cymru) 2010
http://www.legislation.gov.uk/wsi/2010/638/contents/made/welsh

Rheoliadau Addysg (Arolygu Ysgolion) (Cymru) 2006
http://www.legislation.gov.uk/wsi/2006/1714/contents/made/welsh